# PERFFORMIADAU STRYD ...canllawiau sut i

Mae twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Nodwyd y gellid ysgogi iaith, diwylliant a threftadaeth unigryw'r rhanbarth ymhellach er mwyn ychwanegu at amrywiaeth ac ansawdd profiad cyffredinol yr ymwelydd, yn ogystal â chyflawni gwerth economaidd penodol. Gyda phrofiad mwy cyfranogol a difyr i ymwelwyr, mae cyfleoedd ychwanegol ar gael i fusnesau, ac o ran cyflogaeth, datblygu a chadw pobl ifanc dalentog yn yr ardal.

## * Ein Prosiect Byw a Bod Perfformio...

BYW A BOD *perfformio*

Cyflwynwyd y prosiect Byw a Bod gyntaf gan Arloesi Gwynedd Wledig yn 2016 fel cynllun peilot i ymchwilio i'r lefelau diddordeb ac ymateb i'r cysyniad o ddefnyddio celfyddyd perfformio fel rhan o brofiad ychwanegol i ymwelwyr. Yn 2017, datblygwyd y cysyniad ymhellach trwy archwilio ffyrdd newydd o gyflwyno'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth i ymwelwyr a chafodd ei gynllunio'n benodol i ategu 'Blwyddyn y Chwedlau', Ymgyrch Croeso Cymru.



Gan weithio gyda grŵp o bobl ifanc 14 i 25 oed a chwmni theatr lleol sy'n bodoli eisoes, datblygwyd set o dri pherfformiad theatr stryd gwahanol o dan gwmni theatr dros dro newydd o'r enw ' Amrant', a'i gyflwyno mewn gwahanol leoliadau ledled Gwynedd ac Ynys Môn.

“Mae hwn yn gyfle gwych i bobl ifanc ym maes celfyddydau a pherfformiad i gyflwyno'r iaith a'r diwylliant Cymraeg i ymwelwyr.”

RACHEL ROBERTS
SWYDDOG ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

✓ *Cyfle i'r Dyfodol* = i grŵp o unigolion neu grŵp neu fusnes cymunedol, i fynd â'r cysyniad 'Celfyddyd Perfformio Diwylliannol' ymlaen, gyda'r nod o wneud cynnig masnachol-gynaliadwy trwy berfformiadau â thocynnau yn yr atyniadau ymwelwyr presennol mewn lleoliadau allweddol.

✓ *Mae ymwelwyr yn mwynhau clywed yr iaith Gymraeg a chael cyfle i gael eu trochi yn y diwylliant wrth ymweld â Gwynedd ac Ynys Môn*

mwynhau

* *Mae gan yr iaith, diwylliant a threftadaeth werth economaidd amlwg*

Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn cynhyrchu pobl ifanc dalentog ym maes y celfyddydau, felly mae cyfleoedd i fodelau busnes ddefnyddio'r dalent hon a chreu incwm...

peilota...dysgu...rhannu

DYDDIAD DIWEDD Y PROSIECT Awst 2017
RHEOLWR Y PROSIECT Rachel Roberts


ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

ARLOESI MÔN

# camau i... BERFFORMIADAU STRYD llwyddiannus

## 1. Rhestr Gwirio Cyn Cynhyrchu

- Dewiswch leoliad a fydd yn ymgysylltu â'ch cynulleidfa ac yn cysylltu â'r cysyniad. Amgylchedd sy'n ymgorffori'r gynulleidfa yn llawn yn y profiad a gaiff ei greu.
- Mae lleoliadau arbennig o eiconig neu leoliadau â golygfa yn helpu i ledaenu ymgysylltiad drwy 'argymhelliad personol' gyda phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Denwch sylw gyda rhaglennu gofalus - gwnewch i'r amseroedd perfformiad weithio gydag amserlen 'ymwelydd' nodweddiadol y gynulleidfa arfaethedig, yn ogystal â chysylltu â diddordeb a chynulleidfaoedd 'lleol'.
- Sicrhewch fod gennych fformat / techneg prynu tocynnau hawdd i'w ddefnyddio.



Sganiwch i wylio ein ffilm am ein perfformiadau theatr stryd

## 2. Galw am Gastio...

- Gwnewch yn siŵr bod gennych amrediad o bobl gyda'r sgiliau angenrheidiol i gyflwyno'r cysyniad ac aseiniwch gyfrifoldeb iddynt am dasgau megis archebu lle, llogi offer, cyllid, marchnata, ayb.

*Ar gyfer y prosiect Byw a Bod Perfformio, neilltuwyd y rolau canlynol:*

**DYFEISIO A PHERFFORMIO**
(roedd x8 o bobl yn gweithio yn y maes hwn)

**MARCHNATA A HYRWYDDO**
(x1 person)

**RHEOLI PROSIECT A GWEINYDDU**
(x1 person)

**TECHNEGOL A FFILMIO**
(x1 person)

- Sicrhewch fod unrhyw drwyddedau, caniatâd ac yswiriant wedi'u trefnu ac yn eu lle - efallai y bydd gan leoliadau penodol ofynion penodol.
- Os ydych chi'n bwriadu gwerthu byrbrydau neu ddiodydd alcoholig fel ffordd o gynyddu eich elw, efallai y bydd angen trwyddedau / caniatâd penodol hefyd.
- Gweithiwch allan y materion ariannol. Edrychwch ar y prif gostau sefydlu a rhedeg yn ogystal â ffrydiau refeniw megis gwerthu tocynnau a gwerthu bwyd a diod, o bosib. Os ydych chi eisiau gwneud cais am arian, yna bydd cael cyllidebau wedi'u cynllunio yn golygu bod y broses ymgeisio yn llawer haws.

## 3. Barod i Berfformio...

- Mae codi ymwybyddiaeth a chyffro am eich theatr dros dro newydd yn allweddol i lwyddiant. Lledaenwch y gair trwy ddefnyddio deunyddiau printiedig fel posteri a thaflenni, a fformatau digidol megis cyfryngau cymdeithasol a gwefan.



- Un o'r ffurfiau gorau o hysbysebu yw argymhelliad personol, felly sicrhewch fod ffrindiau yn dweud wrth eu ffrindiau nhw am lansiad y theatr a pherfformiadau sydd i ddod.
- Sicrhewch fod pobl yn eich cymuned leol yn gwybod am eich perfformiadau.
- Mae'r wefan hon yn rhestru cyfleoedd a thactegau marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus...
https://soldoutrun.com/theatre-marketing-tactics/

am ragor o wybodaeth, ewch i

www.arloesigwyneddwledig.cymru
@ArloesiGwyneddWledig
@ArloesiGwynedd
www.arloesimon.cymru
@ArloesiMon
@ArloesiMon

**Awgrym 1:** Roedd yr ymateb gan y cyfryngau yn dda iawn - daeth rhaglen Heno S4C i ffilmio perfformiad Amrant ym Mhortmeirion. Esboniodd hyn i'r gynulleidfa beth oedd prif nod prosiect perfformio Byw a Bod.



**Awgrym 2:** Cynlluniwch ar gyfer pob tywydd. Disgwylwch yr annisgwyl, a'i wneud yn rhan o'r adloniant!

**Awgrym 3:** Gwnewch i'r thema redeg trwy bob elfen o'r hyn a wnewch, o'r brandio i'r perfformiad i'r PR i'r dewis popcorn! Sicrhewch fod pobl yn gadael yn gwenu, nid yn meddwl y dylent fod wedi gwneud rhywbeth arall!


Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey Charitable Trust*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

NDA
Nuclear Decommissioning Authority

LEADER
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government